EISTEDDFOD HYNAF CYMRU YN ÔL YN Y CNAWD

Wedi hir ymaros, gallwn gyhoeddi y bydd Eisteddfod Talaith a Chadair Powys yn ôl yn y cnawd. Ar ôl dwy flynedd heb Eisteddfod draddodiadol - mae brwd edrych ymlaen at Eisteddfod eleni a fydd yn cael ei chynnal yn y Stiwt yn Rhosllannerchrugog ar ddydd Gwener a dydd Sadwrn, **15-16 o Orffennaf**.

Dywedodd Aled Lewis Evans ar ran y Pwyllgor Gwaith fod brwdfrydedd rŵan i fynd â'r maen i'r wal. "Er ein bod wedi colli arweiniad doeth a brwdfrydig Aled Rhys Roberts, rydym wedi uno fel Pwyllgor rŵan i sicrhau ar ôl bwlch y pandemig hefyd, fod yr ŵyl yn cael ei gwireddu eleni. Bydd cynnal Eisteddfod hynaf Cymru, yn gyfle i ni hefyd gofio am weledigaeth Aled Roberts, a'r daioni a wnaeth dros yr iaith Gymraeg yn ei gyfnod fel Comisiynydd Iaith. Bydd yn achlysur llawen yn ein bro, a gobeithiwn am gefnogaeth Powys y presennol a'r Powys hanesyddol ym mis Gorffennaf. Bydd croeso i gystadleuwyr o bob rhan o Gymru i'r ŴYl a gynhelir yng nghanolfan ragorol Y Stiwt, Rhosllannerchrugog."

Meddai Rhian Davies, Swyddog Cyfathrebu Eisteddfod Powys, "Mae wedi bod yn gyfnod hir a heriol ers i'r Eisteddfod Powys diwethaf gael ei chynnal yn Llangadfan nol yn 2019. Llenwyd y bwlch rhywfaint gyda chwip o Eisteddfod Rithiol yn 2021 - ble gwelwyd dros 1200 o eitemau a chystadleuwyr- ond mae pawb yn awchu am gael steddfod 'go iawn' unwaith eto. Mae 'Steddfota, brysio o ragbrawf i ragbrawf a chael cam gan y beirniaid yn rhan o'n hunaniaeth fel Cymry, a'r eisteddfodau bychan lleol yn rhoi llwyfan a chyfle amhrisiadwy i feithrin talent ar lawr gwlad."

Mae dal posib gwylio tair sesiwn Eisteddfod Rithiol 2021 ar You Tube: (172) Eisteddfod Powys - YouTube

Yn wreiddiol y bwriad oedd cynnal yr Eisteddfod yn Rhosllannerchrugog nol yn 2020, ar achlysur dathlu 200 mlwyddiant Eisteddfod Powys. Er mai dyma'r tro cyntaf i Rhos groesawu'r Eisteddfod – roedd Cymrodoriaeth yr Eisteddfod yn awyddus i weld Eisteddfod dathlu'r 200 yn dychwelyd i Sir Wrecsam, gan mai yn Wrecsam y cynhaliwyd yr Eisteddfod Powys gyntaf erioed. Mae'n debyg mai'r rheswm y'i cynhaliwyd yn Wrecsam oedd caredigrwydd Syr Watcyn Williams Wynne o ystâd Wynnstay yn Rhiwabon a wnaeth gynnig nawdd hael ar ei chyfer.

Ond clywn rhai ohonoch yn holi- pam cynnal Eisteddfod Powys yn Wrecsam? Eisteddfod Powys yw'r unig un o'r Eisteddfodau taleithiol sy'n dal i fodoli – ond nid Powys fel yr adnabyddir hi heddiw. Ond yn hytrach Powys Fadog a Powys Wenwynwyn (sy'n cynnwys yn fras y rhan fwyaf o Faldwyn, Croesoswallt, rhan helaeth o Sir Wrecsam, de Sir y Fflint, ardal Corwen a Llangollen yn Sir Ddinbych, a draw i ardal Bala a Phenllyn). Gobeithir gweld cythraul canu a chystadlu brwd o'r ardaloedd hyn eleni, ond croeso mawr hefyd, yn ôl yr arfer, i gystadleuwyr o Gymru gyfan a thu hwnt!

Ychwanegodd Rhian Davies, Swyddog Cyfathrebu'r Eisteddfod, "Mae amseru'r eisteddfod hon yn wych ar gyfer unrhyw rai sydd wedi profi llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd, neu rhai sydd am gael ymarfer a beirniadaeth adeiladol cyn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Cofiwch hefyd am y gwobrau hael sydd ar gael. Gobeithio y bydd pawb yn awchu am gael Eisteddfota eto ac y bydd llond y lle o gystadlu."

Mae copi o'r RHESTR TESTUNAU i'w gweld ar www.eisteddfodpowys.co.uk.

Dyddiad cau gwaith llenyddol – Mai 1af.

Dyddiad cau cofrestru cystadlaethau llwyfan – Mehefin 1af.

Dyddiad cau cofrestru cystadlaethau celf a chrefft – Gorffennaf 1af.

WALES'S OLDEST EISTEDDFOD – BACK WITH A BANG

After a long wait, we are delighted to announce that Eisteddfod Talaith a Chadair Powys will return in the flesh. After two years without a traditional Eisteddfod – there is great anticipation for this year's Eisteddfod, which will be held at the Stiwt in Rhosllannerchrugog on Friday and Saturday, **15th-16th of July**.

Aled Lewis Evans, on behalf of the Working Committee stated that they are ready and full of enthusiasm to deliver the Eisteddfod, "Even though we have lost the wise and enthusiastic leadership of our Chairman Aled Rhys Roberts, we are united as a committee to ensure that the festival will find fruition this year, despite the hole left by the pandemic. Hosting Wales's oldest Eisteddfod is an opportunity for us to remember Aled Roberts's vision, and the beneficial work he did for the Welsh language during his time as Welsh Commissioner. It will be a joyful occasion for our community, and we hope to get support from the current and historic Powys in July. We welcome competitors from all parts of Wales to the festival, that will be held in the remarkable Stiwt building in Rhosllannerchrugog."

Rhian Davies, Communications Officer for Eisteddfod Powys added, "It has been a long and trying time since the last Eisteddfod Powys was held in Llangadfan in 2019. The gap was breached somewhat with a fantastic virtual Eisteddfod in 2021 – where we saw over 1200 items and competitors take part – but everyone is keen to have a 'real' Eisteddfod once again. Taking part in Eisteddfods, running from one pre-lim to another and disagreeing with the adjudicator's decision is all part of our identity as Welsh people! The small local Eisteddfods provide an invaluable stage to develop grass root talent."

The three sessions of the 2021 Virtual Eisteddfod can still be watched on Youtube: (172) Eisteddfod Powys - YouTube

Originally the aim was to hold the Eisteddfod in Rhosllannerchrugog back in 2020, to celebrate Eisteddfod Powys's 200th birthday. Even though this is the first time that the Eisteddfod will be held in Rhos, the Eisteddfod's Cymrodoriaeth (Governing body) were keen to see the bi-centenary Eisteddfod held in the county of Wrexham because the first ever Eisteddfod Powys was held in Wrexham itself. It is believed that this was done due to the generous sponsorship of the event by Sir Watcyn Williams Wynne of the Wynnstay Estate at Ruabon.

But we hear you ask – why hold Eisteddfod Powys in Wrexham? Eisteddfod Powys is the only remaining provincial Eisteddfod that still exists- but not the Powys as we know it today. The Eisteddfod's catchment area refers to olden times, and the ancient areas of Powys Fadog and Powys Wenwynwyn. Roughly the area covered is what is currently referred to as Montgomeryshire, over the Berwyn to the Bala area, most of Wrexham County, with a bit of Denbighshire and the Llangollen/Corwen region, and half of Flintshire, including Mold and Treuddyn, and over the border to Oswestry. Competitors form across the region are expected to compete, and a warm welcome is extended to competitors from all over Wales and beyond!

Rhian Davies added, "The timing of this Eisteddfod is great for anyone who has tasted success at the Urdd Eisteddfod, or for those who are looking for constructive adjudication before competing at the National Eisteddfod. There are also great cash prizes to be won. We are hopeful for a great year of competing, with everybody keen to get back to the Eisteddfod stage."

A copy of the LIST OF COMPETITIONS can be seen at www.eisteddfodpowys.co.uk.

Closing date for literature work – May 1st.

Closing date to register for stage competitions - June 1st.

Closing date to register for art and craft – July 1st.